## Dal ati i Ganmol

O deffro, i ganmol yr Oen;
Pwy all fod mewn dyled mor fawr?
A chân nes anghofio dy boen;
Nac oeda, ond dechrau yn awr.
Mae moliant llu'r nef yn rhy wan
I ateb i gariad Duw Iôr;
Dod gymorth, a chana dy ran,
Chwanega at allu y côr.

Yr awydd i ganmol yr Iawn
A ddryso dy sôn am y byd;
Enilled holl allu dy ddawn,
Ac oriau dy fywyd i gyd:
A throed dy freuddwydion di-lun
Yn gyson fyfyrdod am Grist,
I'w foli o hyd drwy dy hun,
Am fyned trwy angau mor drist.

O ddyn, paid â gwrthod yr hawl
O fod yn agosaf i'r Oen;
Ti ddylai fod uchaf dy fawl;
I'th brynu y bu yn ei boen!
Dy ddyled yw canu byth mwy,
Pe tawai pob angel, cân di;
Gan ddeisyf eu cymorth hwynt-hwy,
I ddiolch am Brynwr i ni.

Wrth ganu, dywedyd maent hwy,
'Mae Iesu'n rhyfeddod i ni;'
Ond dyn sydd mewn modd i ddweud mwy,
'Mae Iesu yn fywyd i mi:'
Hwy synnant at Iesu ar bren,
Ond drosot ti deuai i'r gwawd;
Hwy allant ddweud, 'Dyma ein Pen!'
Ond gelli di ddwedyd, 'Fy Mrawd!'

Bu Brenin yr engyl bob un,
Do, drosot ti'n gweini yn was;
Ti ddylit gydnabod dy hun
Y mwyaf ei ddyled i ras:
Angylion wrth ganu drwy'r nef,
Yr anthem, mai 'Teilwng yw'r Oen,'
Gostegant i ddyn roddi'r llef,
'Fi olchodd â'i waed o fy mhoen!'